NHS Blood and Transplant

# Beth am siarad am...

# Y manteision o dderbyn aren gan roddwr byw

**Pan ddywedir wrthych fod angen trawsblaniad aren arnoch, gall fod yn anodd siarad efo teulu a ffrindiau am y posibilrwydd o gael trawsblaniad aren gan roddwr byw. Gallai pobl feddwl bod disgwyl am aren gan rywun sydd wedi marw yn well opsiwn, yn hytrach nag i rywun sy'n agos atoch fynd drwy'r llawdriniaeth. Mae'n bwysig gwybod y ffeithiau – mae aren gan roddwr byw, fel arfer, yn arwain at well canlyniad yn y tymor hir ac mae'n bosib nad yw teulu a ffrindiau'n gwybod hyn. Mae'n bwysig iddynt wybod fel y gallant wneud penderfyniad goleuedig ynghylch eu dymuniad a gwneud y penderfyniad gorau o'u safbwynt nhw a chithau.**

## Pam fod aren gan roddwr byw yn well i mi?

Gwyddom o brofiad byd-eang mai'r driniaeth orau i fethiant yr arennau yw trawsblaniad, a gorau oll os daw'r aren gan roddwr byw. Yn ddelfrydol, byddai pawb sy'n addas yn cael trawsblaniad ac yn osgoi dialysis ond nid oes digon o organau i bawb allu cael y trawsblaniad angenrheidiol ar yr adeg iawn. Mae dechrau asesu rhoddwr byw yn gynnar yn golygu y gellir amseru trawsblaniad yn ofalus er mwyn osgoi dialysis.



Mae yna fanteision eraill hefyd – mae'r rhoddwr byw yn destun asesiadau mor ofalus fel y gwyddom ei bod mor ddiogel â phosibl iddynt roddi, ac fe wyddoch chi'n union beth y medrwch ei ddisgwyl o'r aren a dderbyniwch. Caiff y llawdriniaethau eu trefnu fel mai am gyfnod byr iawn y bydd yr aren y tu allan i'r corff dynol, hyd yn oed pan fydd yr arennau'n cael eu cyfnewid drwy Gynllun Rhannu Arennau Rhoddwyr Byw y DU.  Golyga hyn fod aren gan roddwr byw yn gweithio'n syth fel arfer.

## A yw aren gan roddwr byw yn para'n hwy bob amser?

Yn y DU, gwyddom fod 98% o'r arennau gan roddwyr byw yn gweithio ar ôl blwyddyn, o gymharu â 94% o'r rhai gan roddwyr marw. Ar ôl 5 mlynedd mae 92% o'r arennau gan roddwyr byw yn dal i weithio, o gymharu â 87% o'r rhai gan roddwyr marw. Os edrychwn ni ar ba mor hir mae cleifion yn byw yn y tymor hwy, mae 90% o gleifion yn y DU, a dderbyniodd drawsblaniad gan roddwr byw, dal yn fyw ar ôl 10 mlynedd, o gymharu â 75% o'r rhai a dderbyniodd

aren gan roddwr marw. I'r cleifion hynny sy'n parhau ar ddialysis, amcangyfrifir mai oddeutu 55% ohonynt fydd yn fyw ar ôl 10 mlynedd.

### Dwi'n dal i boeni am ofyn i berson dwi'n ei adnabod gael llawdriniaeth ddiangen er fy mwyn i.

Mae hyn i'w ddisgwyl ac mae'r timau trawsblannu'n ymwybodol iawn o hyn. Mae'r risgiau i roddwyr yn isel, ond mae pob rhoddwr yn cael asesiad trwyadl i wneud yn siŵr ei bod yn ddiogel ac yn synhwyrol iddynt roddi, a'u bod yn glir ynghylch unrhyw risg iddyn nhw. Gallai fod o fudd i chi siarad â phobl sydd eisoes wedi rhoddi aren, ac â rhai sydd wedi derbyn aren gan roddwr byw. Mae'n bwysig cofio fod y bobl sy'n cynnig eu hunain fel rhoddwyr wirioneddol eisiau sicrhau'r canlyniad gorau posibl i'r derbynnydd. Bydd gwybod y ffeithiau hyn i gyd yn eich helpu i wneud y penderfyniadau gorau i bawb.

**I gael rhagor o wybodaeth am roddi arennau byw ewch i:**
**www.organdonation.nhs.uk/become-a-living-donor**

Mae'r ystadegau am drawsblaniadau arennau gan roddwyr byw yn Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Organau Penodol yr NHSBT yn:

**www.odt.nhs.uk/statistics-and-reports**

## NODIADAU

Cewch ragor o wybodaeth am roddi arennau byw yn **www.organdonation.nhs.uk/become-a-living-donor** ffoniwch **0300 123 23 23** neu e-bostiwch **enquiries@nhsbt.nhs.uk**

Yes I donate
ORGAN DONATION